

Gower Activity Centres
Canolfannau Gweithgareddau Gŵyr

# Arweiniad Gweithgareddau

Tripadvisor Gower Activity Centres | @goweractivitycentres | @goweractivitycentres | @goweractivity

Gower Activity Centres
Canolfannau Gweithgareddau Gŵyr




# Syrffio a Chorff-fyrddio

Mae rhywbeth hudolus am fod yn y môr a phrofi cyffro syrffio'ch ton gyntaf. Nid yw'r teimlad o gyffro wrth i chi gyflymu i lawr wyneb y don byth yn eich gadael.

Cyfunwch hynny â golygfeydd godidog penrhyn Gŵyr yn un o draethau syrffio mwyaf eiconig Cymru - rydym yn credu eich bod yn siŵr o gael profiad arbennig a chofiadwy yno.

P'un a ydych yn hoffi'r syniad o syrfio neu gorff-fyrddio, rydym yn dwlu ar gael pobl yn y dŵr. Beth bynnag fo'ch gallu, bydd ein hyfforddwyr yn sicrhau eich bod yn cael amser gwych.



Mae ein byrddau wedi'u dylunio i wneud yn fawr o'r amodau a'ch cael chi i brofi cyffro'r tonnau gwych hynny, a bydd ein siwtiau dŵr modern yn eich cadw'n gynnes yn y dŵr am gyfnod hwy. Beth am ddod i weld drosoch eich hun?

#ItsGowerTime



# Dringo ac Abseilio

**Oes gennych ddiddordeb mewn archwilio'r byd fertigol a geir wrth ddringo? Beth am glogwyni calchfaen trawiadol penrhyn Gŵyr?**

**Mae gan ein harfordir deheuol rai lleoliadau dringo godidog, yn cynnwys golygfeydd unigryw o'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol hon nad oes llawer yn cael eu profi o'r mannau hyn.**

**Ydych chi'n hoffi'r syniad o ddringo gyda dŵr o dan eich traed? Yna, bydd hyn yn newyddion gwych i chi, oherwydd mae nifer o'n lleoliadau â dŵr oddi tanynt, gan ychwanegu at y profiad hwn y gellir ymgolli ynddo'n llwyr.**

**P'un a ydych yn hoffi clogfaenio, dringo neu abseilio, mae gennym rywbeth i bawb!**



Gower Activity Centres | @goweractivitycentres | @goweractivitycentres | @goweractivity



# Padlo Bwrdd

Dewch i roi cynnig ar y chwaraeon dŵr sy'n tyfu gyflymaf yn y byd! Mae'n gymaint o hwyl, a phwy bynnag ydych chi, beth bynnag fo'ch gallu, byddwn yn sicrhau y byddwch yn cael amser gwych! Mae'n hawdd mynd i'r afael â hi, unwaith y byddwn ni'n dangos i chi sut i ddechrau.

Ein harfordir yw'r lle perffaith i brofi'r cyfan sydd gan badlo bwrdd ar eich traed i'w gynnig. P'un a ydych am chwarae'n unig, neu am gymryd taith hwy o gwmpas yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol hon, gall ein tîm profiadol greu hynny.

Gall padlo bwrdd ar eich traed fynd â chi i leoedd anhygoel! Beth am dystio rhywfaint o dreftadaeth arfordirol penrhyn Gŵyr a phrofi peth o'n bywyd gwyllt gwych, o adar y môr a morloi, i forfilod. Mae'n weithgaredd gwych i ffrindiau a theulu sy'n llawn hwyl i bawb!



Gower Activity Centres
Canolfannau Gweithgareddau Gŵyr



# Arfordiro

Y profiad adrenalin gorau posib ym Mhenrhyn Gŵyr! Archwiliwch glogwyni, ogofâu a childraethau cudd ar y daith antur hon. Nofiwch, sgrialwch a neidiwch eich ffordd ar hyd ein harfordir, gyda'i olygfeydd anhygoel, a byddwch yn siŵr o deimlo eich bod wedi profi rhywbeth gwirioneddol arbennig!

Bydd ein tywyswyr arfordiro yn sicrhau eich bod yn cael amser llawn antur a chyffro, ni waeth beth yw lefel eich gallu. Dyma weithgaredd bythgofiadwy mewn lleoliad anghredadwy!






# Lleoliadau Gweithgareddau

**Dringo ac Abseilio**

**Padlo Bwrdd**

**Syrffio a Chorff-fyrddio**

**Arfordiro**

✱ Rhaid talu ac arddangos ym mhob maes parcio

Gower Activity Centres
Canolfannau Gweithgareddau Gŵyr

**P Maes Parcio Ymddiriedolaeth Genedlaethol Rhosili**
SA3 1PR / SS415880

**P Maes Parcio Traeth Porth Einon**
SA3 1NN / SS467852

**P Y Mwmbwls - Maes Parcio Knab Rock**
SA3 4EL / SS625876

**P Maes Parcio Bae Oxwich**
SA3 1LS / SS502864

**P Parkmill - Maes Parcio Canolfan Treftdaeth**
SA3 2EH / SS467852

**P Maes Parcio Gwersyllfa Hillend**
SA3 1JD / SS416908

**P Maes Parcio Bae Langland**
SA3 4SQ / SS605874

**P Maes Parcio Bae Caswell**
SA3 3BR / SS594878

Parcio i Fysus/Coetsis | Parcio Ceir | Toiledau | Cowodydd | Caffi | Bwyty | Gwersylla

Gower Activity Centres | @goweractivitycentres | @goweractivitycentres | @goweractivity

# Cysyllltwch â ni:

01792 390481

gcg@abertawe.gov.uk

www.goweractivitycentres.co.uk

Canolfannau Gweithgareddau Gŵyr, Tŷ Borfa, Porth Einon, SA3 1NN

# #ItsGowerTime



Gower Activity Centres @goweractivitycentres @goweractivitycentres @goweractivity